

**Uned Cymorth Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i  
Deuluoedd (UCCACD)  
Education and Family Support Directorate –  
Directorate Support Unit (EDSU)**

Deialu uniongyrchol / Direct line: 01656 642617

Ein cyf / Our ref: EDSU  
Eich cyf / Your ref: FSMPV01

Dyddiad / Date: 20 Hydref 2021

Annwyl riant/gofalwr

## **Talebau talu i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim**

Fel y gwyddoch, rwy'n siŵr, mae'r awdurdod lleol wedi bod yn cynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) ers mis Mai 2020, drwy drefnu iddynt gael parcel bwyd bob wythnos yn ystod y cyfnodau clo, gwyliau'r ysgol a phan oedd angen iddynt hunanynysu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd y cymorth ariannol ar gyfer disgyblion eFSM yn parhau dros wyliau'r ysgol, tan y Pasg 2022.

Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried y cymorth y mae'n parhau i'w roi i ddisgyblion eFSM ac mae wedi penderfynu'n ddiweddar i ddod â'r parceli bwyd i ben a defnyddio 'talebau talu' yn eu lle. Mae'n bosibl defnyddio'r daleb hon, gwerth £19.50 yr wythnos, mewn unrhyw 'PayPoint' a'i gyfnewid am arian parod.

Bydd yr awdurdod lleol yn anfon y talebau ar gyfer gwyliau hanner tymor mis Hydref at rieni dros y dyddiau nesaf. Nodwch y canlynol:

- Bydd rhieni/gofalwyr sydd wedi bod yn cael parceli bwyd yn rheolaidd yn cael eu taleb drwy'r e-bost neu neges destun.
- Bydd rhieni/gofalwyr sydd wedi penderfynu peidio â derbyn parceli bwyd yn fuan yn ystod y pandemig, yn awr yn cael eu cynnwys yn awtomatig yn y cynllun talebau talu a byddant yn cael eu taleb yn electronig drwy'r e-bost neu drwy neges destun.

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn amyneddgar tra bo'r talebau'n cael eu dosbarthu. Fodd bynnag, os na fyddwch wedi cael eich taleb erbyn dydd Mercher 27 Hydref, cysylltwch drwy'r e-bost: [FSMCOVID19@bridgend.gov.uk](mailto:FSMCOVID19@bridgend.gov.uk)

**Ni chewch ddefnyddio'r daleb oni bai mai atoch chi y bwriadwyd ei anfon ac oni bai'ch bod yn rhiant/gofalwr plentyn eFSM.**

Yn gywir



**Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)**

**Uned Cymorth Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd (UCCACD)  
Education and Family Support Directorate Support Unit (EDSU)**